YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

# Tymor yr Hydref 2022 – Adran y Môr – Dosbarth y Morlo

## Bywyd braf yw bywyd plentyn

### Y Dyniaethau

Ymchwilio i amrywiol ffynonellau gwybodaeth er mwyn dysgu am agweddau o fywyd plentyn yn Oes Fictoria e.e.  - teganau, bywyd ysgol, bwyd, dillad, gwaith.
Dysgu hanes Susan Rees , merch yn y pwll glo.
Cymharu bywyd plentyn heddiw â bywyd plentyn yn oes Fictoria.
Dysgu am seremonïau crefyddol yn ymwneud â babanod - seremoni enwi'r crefydd Siciaeth a seremoni fedyddio Gristnogol.

### Iechyd a Lles

Parhau i ddatblygu ein ffitrwydd a datblygu ein sgiliau gymnasteg.
Mwynhau profiadau newydd yn yr awyr agored yn ystod sesiynau Ysgol Goedwig.
Trafod rheolau'r ysgol a thrafod sut i fod yn ddinasyddion cyfrifol.
Deall ein hawliau a'n cyfrifoldebau er mwyn medru parchu hawliau eraill.
Trafod ein teimladau a sut y dylid trin eraill a deal beth yw cydberthnasau iach.
Gwneud penderfyniadau ynglŷn â'n gwaith, fel unigolyn ac fel aelod o grŵp.

**Ein bwriad yn yr uned ddysgu hon yw datblygu dealltwriaeth bod cyd-berthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles. Gobeithiwn feithrin ymwybyddiaeth o effaith ein penderfyniadau a'n gweithredoedd ar ein hunain ac ar eraill a dealltwriaeth o bwysigrwydd parchu anghenion a hawliau ein gilydd. Anelwn at ddatblygu dysgwyr chwilfrydig ac ymholgar sy'n medru meddwl yn feirniadol. Bwriadwn ymchwilio a gwerthuso tystiolaeth  a ffynonellau gwybodaeth er mwyn adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau ym mywyd plant heddiw a'r gorffennol. Gobeithiwn ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o brofiadau pobl o fewn cyd-destunau lleol  er mwyn datblygu dysgwyr gwybodus sy'n medru cyfathrebu'n hyderus a dangos empathi tuag at eraill. Erbyn diwedd yr uned ddysgu, hyderwn y bydd y dysgwyr yn gwerthfawrogi eu hawliau ac wedi datblygu corff o wybodaeth wrth ymchwilio i'w hunaniaeth ac i hanes Cymru.**

### Celfyddydau Mynegiannol

Mwynhau canu caneuon yn ymwneud â'r thema.
Mwynhau creu perfformiad ar gyfer dathliadau'r Nadolig.
Datblygu ein sgiliau darlunio a datblygu'r sgil o ddarlunio portreadau.

### Ymweliadau

Ymweld ag Amgueddfa Abertawe ar gyfer gweithdy bywyd plentyn yn oes Fictoria.
Ymweld ag oriel y Gynn Vvian ar gyfer gweithdy creu portreadau.

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Archwilio a mynegi priodweddau sylfaenol golau a thrydan.
Gofyn cwestiynau ac awgrymu dulliau ymholi syml.
Mwynhau rhagfynegi canlyniadau a chynnal ymchwiliadau syml.
Mwynhau'r profiad o greu cylchedau trydan a deall peryglon trydan.
Deall cylch bywyd bodau dynol.

### Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Creu cornel chwarae e.e. Siop Deganau a mwynhau chwarae rôl.
Datblygu ein sgiliau llafar drwy amryw o weithgareddau.
Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a llyfrau ffeithiol a ffuglen.
Mwynhau gwylio rhaglenni teledu megis 'Amser Maith Maith yn ôl.'
Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
Mwynhau ysgrifennu mewn amryw o ddulliau, gan gynnwys cyflwyno gwybodaeth, portread, a dyddiadur.
Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

Bydd y gwaith cartref yn cael ei rannu trwy gyfrif Hwb eich plentyn. Gweler y cyfarwyddiadau ar dudalen y dosbarth ar wefan yr ysgol.
Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau neu nos Wener.
Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol.

### Mathemateg a Rhifedd

Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau hyd at 100 o leiaf. Deall gwerth lle.
Ymarfer a gwella sgiliau adio, tynnu i ffwrdd a lluosi.
Defnyddio arian, ymarfer ein sgiliau mesur hyd, amser  ac astudio siâp.
Chwarae llawer o gemau mathemateg pen.
Casglu data a'i gyflwyno.

YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

Tymor yr Hydref 2022 – Adran y Môr – Dosbarth y Morlo


# Bant â ni i gynllunio!

**Ein Cywaith Cloi**

Gobeithiwn gynnal diwrnod lle byddwn yn gwisgo fel plant o Oes Fictoria a chyflwyno gwybodaeth neu ffilmiau i'n gilydd am fywyd plant amser maith yn ôl.

Beth oedd plant yn gwneud amser maith yn ôl? Elenid

Dysgu am deganau. Molly May




Dysgu am hawliau plant.

Beth oedd plant yn gwisgo amser maith yn ôl? Ffion

Pa deganau oedd i gael amser maith yn ôl? Teilo

Beth oedd plant yn dysgu yn yr ysgol? Leeco

Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion! www.yggbrynymor.co.uk
Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd! @YGGBrynymor1